

## Dyfodol ein Canolfannau



Mewn datganiad yn ddiweddar ar wefan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, fe roddwyd canlyniad yr adolygiad ar ddyfodol dwy ganolfan breswyl yr enwad, sef Canolfan Hyfforddiant Lleyg a Chynadledda Coleg Trefeca a Chanolfan Ieuenctid a Phlant Coleg y Bala. Bu'r enwad ynglŷn â'r adolygiad ers 2018 mewn ymateb i'r newid sydd wedi digwydd oddi mewn ac oddi allan i'r eglwys.

Yn y datganiad a wnaed cyn y Nadolig (sydd i'w gael ar wefan EBC, [Datganiad Coleg Trefeca a Coleg y Bala | Eglwys Bresbyteriaidd Cymru \(ebpcw.cymru\)](#)), fe nodir gwerthfawrogiad o'r canolfannau a rôl allweddol y ddwy ganolfan yng ngweinidogaeth a chenhadaeth yr eglwys gyfan.

Dywedir yn gyntaf am Ganolfan Trefeca, 'Byddwn yn diogelu perchnogaeth safle Trefeca, safle sydd o arwyddocâd hanesyddol i'r Enwad fel ag i Gymru a thu hwnt. Byddwn yn gwneud hynny drwy adnabod grwpiau / partneriaid fydd yn gyfrifol am waith a gweinidogaeth o ddydd i ddydd y Ganolfan. Er y bydd lefel ein buddsoddiad ariannol fel Enwad yn dirwyn i ben dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gydag eraill i ddiogelu fod y llecyn arbennig hwn o dir a'i dreftadaeth gyfoethog yn parhau i wasanaethu fel atgof byw o'n gorffennol, ac fel safle sy'n dod â bywyd, yn lle i orffwys, encilio, trafod a dysgu ar gyfer ein heddiw wrth inni edrych ymlaen at yfory.'

Dywedir wedyn am Ganolfan Coleg y Bala fod penderfyniad i barhau i gyllido gwaith y Ganolfan am y tair blynedd nesaf oherwydd natur y gwaith allweddol a wneir yno a'i rôl o fewn tîm ehangach Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid EBC.

Cawn gyfle isod i glywed ymateb rheolwyr presennol Canolfan Coleg y Bala a'r gwahoddiad i bartneru efo nhw i barhau i wasanaethu yn enw ein Harglwydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn clywed gan rai sydd ynglŷn a'r gwaith yn Nhrefeca yn ein rhifyn nesaf. Cafwyd eisoes ymateb i'r newyddion am y canolfannau hyn ar Radio Cymru - *Bwrw Golwg a Dros Frecwast*. Gwahoddwn chi fel darllenwyr *Cenn@d* i ymateb hefyd ac i rannu eich syniadau a'ch gwerthfawrogiad efo ni. (Gol. HP-D)



Gweithgaredd Nadolig ar y Cwrs Ieuenctid diweddar yng Ngholeg y Bala



Disgo tawel yng nghapel y coleg



Owain Edwards yn siarad efo'r plant ar gwsr Hwyl yr Ŵyl cyn y Nadolig.

## Blwyddyn Newydd Fendithiol i bob un ohonoch!

Yr ydym ni yma yng Nghanolfan Coleg y Bala yn edrych ymlaen yn ddisgwylgar at 2022 er mwyn gweld beth sydd gan Dduw yn aros ar ein cyfer. Fely gwyddoch, o bosibl, fe fu'r Ganolfan Ieuenctid a Phlant a adnabyddwn fel Coleg y Bala o dan adolygiad yn ddiweddar, ac fe gyhoeddodd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru y byddant yn parhau i ariannu'r ganolfan am y tair blynedd nesaf.

Fodd bynnag, ar ôl y cyfnod hwn, fe fydd angen i Ganolfan Coleg y Bala ganfod cefnogaeth a ffynonellau ariannu o lefydd eraill. Yr ydym ni wir yn ddiolchgar am y blynyddoedd maith o gymorth ffyddlon y ariannol, mewn gweddi ac yn fugeiliol y mae Eglwys Bresbyteriaidd Cymru wedi ei roi i ni ac eraill o'n blaenau yn y Coleg. Yr ydym ni ddiolchgar am yr eglwys a'r Ysgolion Sul sydd wedi partneru efo ni yn yr Efengyl a'r ffrwyth y mae hynny wedi ei ddwyn. Mae yna lawenydd mawr yn ein plith bob tro y byddwn yn derbyn ymatebion cadarnhaol wedi cynnal cyrsiau, pan welwn fywydau'n cael eu newid oherwydd yr Efengyl a phobl ifanc yn rhannu Iesu efo eraill. Mae hyn oll wedi bod yn bosibl oherwydd partneriaeth haelionus EBC. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb.

Felly, beth am y dyfodol? Fe fu inni ailagor yn llawn ddiwedd Medi, ac mae'n dda iawn gennym ddweud inni, er gwaethaf Covid, allu gwahodd plant a phobl ifanc i ddod i aros yma. Bu i'r staff ymdaflu'n llwyr i'r dasg o sicrhau mai'r rhain oedd y cyrsiau gorau eto! Bu'r ymateb yn gadarnhaol, ac mae hi mor dda gweld y Coleg yn cael ei ddefnyddio i'w botensial llawn. Yr ydym yn llawn cyffro i weld y Coleg yn cyflwyno rhai cyrsiau newydd a hefyd yn dod â llawer o'r cyrsiau mwyaf poblogaidd yn eu holau. Mae yna waith eto i'w wneud ymlith ein plant a'n pobl ifanc.

Wrth inni weddio a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gawn ni ofyn i chithau hefyd ymuno â ni yn hynny. A hoffech chi bartneru efo ni yn y gwaith? Allech chi roi amser i weddio, i roi yn ariannol neu i'n cyfeirio at sefydliadau eraill a fyddai'n hoffi partneru gyda ni. Yr ydym yn gwybod ac yn credu mai gwaith yr Arglwydd yw hwn ac yr ydym yn ymddiried y gwaith iddo ef. Ef sy'n dweud yn ei Air,

"Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn" (Marc 10:14). Y fath faint yw cael bod yn rhan o'rannu ei Deyrnas gyda'n plant a'n pobl ifanc.

*Owain a Siân Edwards*

## Cyfarchion Blwyddyn Newydd gan Lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, Aldyth Williams

Yn y calendar eglwysig, 6 Ionawr yw Gŵyl yr Ystwyll. Os ydych yn darllen papur newydd fel y *Telegraph* neu'r *Times*, fe fydd y 'Court Circular' yn dwyn yr wybodaeth fod Ei Mawrhydi'r Frenhines wedi cyflwyno anrhegion o aur, thus a myrr mewn oedfa a gynhelir mewn capel preifat ym Mhalas St James.

### Pwy ddaeth â'r anrhegion i'r preseb?

Mewn ambell garol fe'u gelwir yn frenhinoedd, ac mewn barddoniaeth maent yn ddoethion, ac yn y Beibl Cymraeg Newydd fe'u gelwir yn sêr-ddewiniaid. Ond yn [beibl.net](http://beibl.net) maent wedi newid yn ôl i fod yn wŷr doeth. Wrth gwrs, byddai angen ychydig o wybodaeth o fyd astronomeg i ddarllen y ffurfafen a dilyn y seren, ond mae eu disgrifio fel unigolion doeth yn creu darlun mwy cyffyrddus i bawb ohonom.

Mae dyfodiad y gwŷr doeth, wedi teithio o bellter, yn cwblhau'r tablo o amgylch y preseb. Mae gyda ni'r baban Iesu, Mair a

Joseff, yr angylion, y bugeiliaid a'r triawd egsotig hwn o'r dwyrain. Mae'r bugeiliaid yn lleol, mae'r gwŷr doeth yn estroniaid. Beth ddylai'r darlun hollol gyfarwydd gyfleu i ni? Wel, y mae genedigaeth ein Harglwydd Iesu Grist fel baban diniwed yn anrhegodd wrth Dduw oherwydd ei gariad tuag at y ddynoliaeth. Mae presenoldeb y cymeriadau o amgylch y preseb, a'u gwahanol gefndiroedd, sgiliau, addysg a chyfoeth yn golygu bod yr anrheg o Waredwr i bawb dros y byd – nid rhywbeth i'w guddio ond rhywbeth i'w rannu.

Wrth gwblhau'r tablo, mae taith y gwŷr doeth wedi dod i ben. Mae ein cerddediad ni drwy'r flwyddyn newydd wedi dechrau. Mae rhai apwyntiadau a digwyddiadau wedi eu nodi yn barod yn y misoedd sydd i ddod, ond ni wyddom pa anawsterau a ddaw ar ein traws. Mae Covid-19 a'r pandemig yn dal i liwio cymaint ar ein bywydau dyddiol, a chofiw'n am bawb sydd wedi eu heffeithio dros y misoedd

diwethaf. Mae gyda ni'r ddawn o edrych yn ôl, ond ni allwn newid pethau sydd wedi digwydd.

Cerddwn ymlaen yn hyderus drwy 2022 gan gofio, er pob anhawster, ein bod yn bobl freintiedig, yn aelodau o gymdeithas gyfoethog a rhydd. Cofiw'n am bawb sydd yn llawer llai ffodus na ni, ac yn arbennig am y Cristnogion hynny sy'n dioddef erledigaeth – mae'r nifer yn cynyddu'n ddyddiol yn anffodus.

Diolch i Ti, ein Tad, am dy ryfedd gariad tuag atom yn anfon dy Fab i'r byd. Gwerthfawrogwn y cyfle i ddathlu genedigaeth ein Gwaredwr a gwyddom fod dyfodiad baban yn destun llawenydd a gobaith ond hefyd yn golygu gwaith. Ymddiriedwn yn y newyddion da fod Iesu Grist wedi dod i'r byd mewn cariad ac i fod yn llewyrch i'n llwybr ac yn gefn i'n hymdrechion.

Dymunaf y bydd 2022 yn flwyddyn ddiogel, ymroddgar ac egniol i bob un ohonoch yn ein gwaith o gyhoeddi'r Newyddion Da i fyd sydd yn dyheu am gariad, gobaith a goleuni.

## Cynllun blwyddyn gap Tîm i Gymru yn ôl ar gyfer 2022

Ydych chi'n cofio sylweddoli rhywbeth pwysig nad oeddech chi wedi ei ddeall o'r blaen? Rhywbeth am fywyd, efallai, neu am fywyd yr eglwys, fel y ffaith fod pethau bob amser ychydig yn anhrefnus er gwaethaf pob ymdrech, a bod hynny'n iawn – dyna sut mae Duw'n gweithio? Mae'r adegau ffurfiannol hynny mor hanfodol i'n twf fel Cristnogion, ac os gallwn gael y profiadau hynny fel oedolion ifanc, gallant ein paratoi at oes o wasanaeth.

Mae angen dybryd yng Nghymru i ni fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o arweinwyr Cristnogol ac mae angen eich help arnom i wahoddy genhedlaeth hon i dyfu i fod yr hyn y mae Duw wedi ei



galw i fod. Yn dilyn llwyddiant y blynyddoedd diwethaf, mae Undeb Bedyddwyr Cymru unwaith eto wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y genhedlaeth iau drwy gynnig rhaglen blwyddyn i ffwrdd i ddysgu a gweithio fel tîm o dri neu bedwar ochr yn ochr â'r eglwys leol.

Bydd y 'flwyddyn gap Gristnogol' hon yn cynnwys cydbwysedd o hyfforddiant, profiad ymarferol o genhadaeth yng Nghymru drwy'r eglwys leol, profiad cenhadol mewn diwylliant tramor, twf ysbyrdol – yn ogystal â digon o hwyl, wrth gwrs! Allwch chi annog Cristnogion ifanc rydych chi'n eu hadnabod i ystyried cymryd blwyddyn i ffwrdd gyda ni a fydd yn eu helpu i fagu hyder, tyfu yn eu ffydd Gristnogol, datblygu eu doniau unigryw a'u galluogi i ddysgu mwy am galon Duw dros Gymru a'r byd ehangach?

- Ydych chi'n adnabod person ifanc allai fod â diddordeb mewn bod yn aelod o'r Tîm i Gymru?
- Oes gennych chi bobl ifanc yn eich cylch neu eich teulu sy'n awyddus i gryfhau eu ffydd a datblygu eu rhoddion?
- A oes gennych chi bobl ifanc yn eich eglwys allai fod â diddordeb yn Nhîm i Gymru 2022 neu yn y dyfodol?

Mae Tîm i Gymru yn rhaglen blwyddyn gap ar gyfer oedolion ifanc Cristnogol rhwng 19 a 25 oed sydd:

- yn eu cysylltu â grŵp mawr o bobl ifanc tebyg iddynt o bob cwr o Gymru
- yn darparu hyfforddiant a mentora i roi'r hyder iddynt gamu allan o'u 'parth cysur' gan wybod bod pobl o gwmpas i'w cefnogi
- yn cynnig y profiad ymarferol o weithio ochr yn ochr ag eglwys lleol sy'n mynd i'r afael â realiti cenhadaeth yng Nghymru
- yn mynd â nhw dramor i brofi diwylliant gwahanol a gweld sut mae cenhadaeth yn edrych yn y cyd-destun hwnnw
- yn caniatáu i bobl ifanc dyfu yn eu perthynas bersonol ag Iesu Grist drwy roi eu ffydd ar waith mewn ffordd radical.

Mae manylion llawn am y rhaglen yn ogystal â ffurflen gais ar gael ar y [dudalen hon](http://dudalen.hon).

“Peidiwch â gadael i neb edrych i lawr arnoch chi oherwydd eich bod yn ifanc” (1 Timotheus 4:12)



# O'r byd a'r betws

## Dylanwad Desmond Tutu

Yn ystod yr wythnosau ers gŵyl San Steffan, lluniwyd llu o erthyglau ar amrywiol lwyfannau yn cydnabod cyfraniad eithriadol Desmond Tutu, y gŵr bychan o gorff, eang ei weledigaeth, effeithiol ei lefaru a sylweddol ei ddylanwad. Gŵr teulu a gafodd ei anwylo gan ddinasyddion byd. Diolchwn amdano.

### Elias?

Prin fod unrhyw berson ar lwyfan hanes yn medru siarad am genedlaethau ar ôl ei fyw; braint pawb yw cyfarch ei gyfoedion ei hun, gan obeithio bod eraill yn cydio yn y fflam a'i chyflwyno i'w cyfnodau hwythau. O bosibl, bydd llyfrau'n adrodd hanes yr Archesgob Tutu a'i ddylanwad, a phwy a ŵyr na fydd ffilm yn cael ei llunio, fel y gwnaed gyda Mandela, a llawer eraill. Bu'n ysgogwr gobaith mewn sefyllfaoedd heriol, yn llais cydwybod a chyfiawnder mewn gwlad a byd o dwyll a hunan-fantais, ac yn lladmerydd heddd a chymod pan oedd eraill yn barod i ddefnyddio trais a dialedd erchyll. Pan gyhoeddodd fod yn rhaid i'r duon garu'r gwynion, pan oedd gwrthryfel yn y tir, teimlwn fod Crist yn ei galon, a'i fod wedi darllen gweithiau Gandhi a Waldo.

### Elias ac Eliseus?


Wrth i bob Elias adael y llwyfan, fe ddaw Eliseus arall yn ei dro a chodi llais cydwybod a galw am gyfiawnder. Os bugeilio defaid ei dad, Jethro, oedd gwaith Dafydd, a bod Meseia Duw yn cael ei eni mewn stabl ym Methlehem, a'i fagu yn Nasareth, o ble daw Eliseus heddwch a chyfiawnder byd yn ystod y degawd nesaf. Un peth yw goddefgarwch, peth arall yw tawedogrwydd dibwrpas. Gwelwyd ym mywyd Desmond Tutu ddefosiwn dwys ac ymroddiad llwyr i'r eglwys. Sylweddolwyd hefyd iddo berthnasu'r ffydd ddofn honno mewn gwasanaeth eang, ymhell tu hwnt i Anglicaniaeth a'r teulu Cristnogol, drwy weld y posibilrwydd o ddynoliaeth lawn dwf ym mhawb ar draws gwledydd byd.

### Derbyn neges gostyngeddwrwydd

Tybed faint o'r rhai a ganodd ei glodydd fydd yn ystyried sut mae gwirionedd a chyfiawnder, maddeuant a chymod yn nodweddion i'w cofleidio a'u meithrin yn ein bywydau ein hunain? Ai edmygu Desmond Tutu o hyd braich neu a fydd y cyrff eglwysig yn datblygu cenhadaeth Tutu yn eu bywydau hwy? A ddaw heddwch amlycach oddi mewn i Gatholigiaeth, Anglicaniaeth ac Anghydfurfiaeth? Ymwrthododd Tutu â chrandrwydd myfiol, fel y gwnaeth gydag arch ysblennydd a phasant o angladd. Byddai hefyd yn ymwrthod â phob clod iddo'i hun, pe bai'n deall bod lleisiau heddd yn codi o'r newydd o gynulleidfaoedd dialedd a thrais. Byddai hefyd yn dathlu bod Cristnogion byd yn agor eu breichiau ar led ac yn derbyn pobl o bob natur ac anian gyda pharch a chariad.

### Awdur a diwinydd

Faint ohonom a sylweddolodd ei fod wedi cyhoeddi cymaint o lyfrau ac yn ddiwinydd o bwys yn ei wlad enedigol? Faint ohonom



Llun: [Benny Gool / Wikimedia Commons](#)

sydd wedi eu darllen, tybed? Cododd tonnau o ddiwinyddiaeth yn ystod y ganrif ddiwethaf yn rhoi mynegiant i frwydrau pobl a ddiodeffai ormes. Bydd Diwinyddiaeth Rhyddid, Diwinyddiaeth Merched, Diwinyddiaeth Gobaith, a Diwinyddiaeth y Duon yn enghreifftiau arbennig o hyn. Tybed a fydd gweithiau Tutu yn graidd o ysgrifennu myfyriol y bydd llawer o ddarlenn arno, gan droi'n ysbrydoliaeth ddyfnach i gefnogi ton nesaf cenhadaeth eglwysig byd? Gobeithio'n wir.

*Denzil John*

Fe'i cofir am ei ddweud cryno a bachog, a dyma ambell ddyfyniad ganddo:

“Pan ddaeth y cenhadon i Affrica, roedd y Beibl ganddyn nhw ac roedd y tir gennym ni. Fe ddywedon nhw: ‘Gweddiwn ...’, ac fe gaeon ni ein llygaid. Pan wnaethon ni eu hagar, roedd y Beibl gennym ni a'r tir ganddyn nhw.”

“Nid chi'n sy'n dewis eich teulu. Rhodd Duw i chi ydyn nhw, fel yr ydych chi iddyn nhw.”

“Rhaid inni fod yn barod i ddysgu oddi wrth ein gilydd, heb honni mai ni yn unig sy'n meddu ar bob gwirionedd, a chredu bod gennym hawl ecsglwiwsif ar Dduw.”

“Daw pwynt lle mae angen i ni roi'r gorau i dynnu pobl allan o'r afon dro ar ôl tro. Mae angen i ni fynd i fyny'r afon a darganfod pam eu bod nhw'n cwmpo i mewn.”

“Nid oes gennyf ddiddordeb mewn derbyn briwsion tosturi a daflwyd o fwrdd rhywun sy'n ystyried ei hun yn feistr arnaf. Rwyf am gael y fwydlen lawn o hawliau.”

## Cymorth Cristnogol yn ffarwelio ag Amanda Mukwashi

Dymunwn yn dda i Amanda Khozi Mukwashi wrth iddi adael ei swydd fel Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol ddechrau'r mis hwn.

Feymunodd Amanda Mukwashi â Chymorth Cristnogol yn 2018 fel ei Brif Weithredwr cyntaf o dras Affricanaidd ac mae hi wedi arwain y mudiad drwy amserau heriol sy'n cynnwys cyfnod pandemig Covid-19. Bydd Amanda yn gadael er mwyn arwain gwaith y Cenhedloedd Unedig yn Lesotho.

Yn ystod ei chyfnod gyda Chymorth Cristnogol fe arweiniodd ailstrwythuro mewnol sylweddol, yn ogystal â llunio strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod – Sefyll Ynghyd, gyda ffocws integredig ar dlodi, grym a'r llais proffwydol. Hi fu'n gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu tair blynedd ar hil ac amrywiaeth ar gyfer y mudiad.

Cydnabuwyd gwaith arweiniol Amanda ym mis Medi 2021 pan enillodd wobwr Prif Swyddog Gweithredol Elusenol y flwyddyn yng Ngwobrau'r Trydydd Sector.



Llun: Cymorth Cristnogol

Wrth baratoi i adael y gwaith, dywedodd Amanda: 'Rwy'n drist iawn fy mod yn gadael Cymorth Cristnogol – mudiad rydw i'n ei garu. Un o freintiau mawr fy mywyd oedd cael arwain y sefydliad nodedig yma am dair blynedd a hanner o'i 76 blynedd a chael gwneud fy rhan – ochr yn ochr â rhai o'r bobl mwyaf angerddol ac ymroddedig rydw i erioed wedi eu cyfarfod – yn sefyll dros urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb.

'Er na fyddaf yn arwain Cymorth Cristnogol, rydw i'n hyderus fy mod yn gadael sefydliad cryf sydd wedi ei osod mewn lle da i fynd i'r afael â'r tldi a'r anghyfiawnder sy'n mynnu ei barhad. Mae gennym ni ddim sydd eto mewn lle da i wneud gwahaniaeth go iawn ar faterion newid hinsawdd, dyled,

ac anghyfarfalededd economaidd, hiliol a rhywedd. Byddaf yn dal ati i gefnogi ac annog Cymorth Cristnogol o ochr y cae.'

Dywedodd y Dr Rowan Williams, cadeirydd Cymorth Cristnogol hyd ddiwedd 2021: 'Er ein bod ni i gyd yn drist o weld Amanda yn gadael Cymorth Cristnogol, rydym yn ddyledus dros ben iddi am ei harweiniad i'r mudiad ardderchog hwn. Mae hi wedi cael argraff drawsnewidiol ar y mudiad a'r sector ehangach i gyd drwy fod yn lladmerydd brwd, hyglyw ac effeithiol i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

'Mae Amanda wedi bod yn brif weithredwr anhygoel, yn arweinydd anhygoel ym mhob ffordd, yn ysbrydoli symudiad cydweithredol dros newid yn ei phenderfyniad i ddileu sgandal ac anghyfiawnder tldi. Bydd yn cael ei cholli yn arw, ond gweddiwn y bydd y cam nesaf hwn yn parhau i weld ei harweiniad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.'

Mewn derbyniad iddi yn Llundain ym mis Rhagfyr fe gyflwynodd y Parch. Nan Powell-Davies, Cadeirydd y mudiad yng Nghymru, anrheg o lwy garu iddi ar ran eglwysi a gweithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru gan ddymuno bendith ar ei gwaith yn y 'Deyrnas yn yr Awyr' a'r fendith a arferir yno yn Lesotho: 'Khotso, Pula, Nala' (Heddwch, glaw a ffyniant).

## Salem, Llangennech

Ym mis Rhagfyr 2021 fe wnaethon ni gyflwyno Beibl Mawr (beibl.net) i un o aelodau mwyaf ffyddlon achosy Bedyddwyr yn Llangennech, sef Glyn Williams. Ychydig wythnosau cyn ei ben-blwydd yn 90 oed (Ionawr 2022), derbyniodd diacon hynaf Salem, Llangennech, gdnabyddiaeth am ei waith dros flynyddoedd lawer yn y capel hwn. Mae Glyn wedi llenwi'r pulpud a gofalu am yr adeilad am ddegawdau.

Dros y blynyddoedd, mae hefyd wedi bod yn brysur yn coginio ar gyfer sawl achlysur arbennig yn festri Salem, megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi (cawl i lawer) a

the prynhawn neu fore coffi i gasglu arian at achosion da, ayyb. Mae Glyn wedi bod yn fendith i mi ers i mi gael fy sefydlu'n weinidog i ofalaeth newydd Adulam, Felin-foel; Salem, Llangennech; a Seion, Llanelli. Cefais i a'm teulu groeso cynnes ganddo o'r cychwyn cyntaf, fel y cawsom gan lawer o aelodau a chyfeillion eraill yr ofalaeth.

Un arall sydd wedi dathlu hanner canrif o wasanaeth wrth yr organ yn Salem, Llangennech, yw Allan Fewster. Mae wedi arwain sawl cymanfa ganu a chynorthwyo mewn llawer o gapeli ac eglwysi eraill yn ogystal â Salem. Dyma un arall sydd wedi

bod yn groesawgar a chefnogol iawn wrth i ni fel teulu setlo yn yr ofalaeth newydd ac yn achos y Bedyddwyr yn Llangennech, wrth gwrs.

Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw a phawb arall sy'n barod i gynorthwyo gwaith Teyrnas ein Duw wrth i ni ledaenu'r Gair ym Mro'r Sosban.

A bydd y Brenin yn ateb, 'Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i.' (Mathew 25:40)

*Parchg I. E. Grandis*



Y Parchedig Isias Grandis yn cyflwyno Beibl i Glyn Williams



Diaconiaid Salem, Llangennech, gyda'r Gweinidog. (Allan Fewster, Eric Lewis, Megan Morgan, Isias Grandis, Glyn Williams a Miriam Davies)



## Gofalaeth Bro Nant Conwy



### ▲ Ysgol Sul Newydd Bro Garmon

Dydd Sul, 28 Tachwedd, cafwyd sesiwn cyntaf Ysgol Sul Bro Garmon yng nghapel Nebo. Braff oedd gweld cymaint o blant yn ymuno. Diolch yn fawr iawn i Eleri, Ffion a Dwynwen am ei gynnal. Cafwyd llawer o hwyl a gweithgareddau Nadolig



### ◀ Clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol)

Cynhaliwyd Clybiau CIC i ardaloedd Nebo, Capel Garmon; Siloam, Ysbyty Ifan; a Phadog yn neuadd Ysbyty Ifan yn ddiweddar. Mae CIC Bach ar gyfer plant oedran Ysgol Blynnyddoedd 3, 4 a 5, a Chlwb CIC ar gyfer oedran Ysgol Blwyddyn 6 ac ysgol uwchradd. Cafwyd llawer o hwyl a sbri.

### ▶ Clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer ardaloedd Efailuchaf, Llanddoged, Melin-y-coed a Llanrwst

Cafwyd parti Nadolig CIC nos Fawrth, 14 Rhagfyr, yn festri Seion, Llanrwst. Yn ystod y ddau sesiwn cafwyd cyfle i chwarae nifer o gemau, creu crefft Nadoligaidd, cymdeithasu a chael hwyl.



## Canu carolau cymunedol



Daeth tyrfa dda at ei gilydd ar noswyl y Nadolig i ddiwyddiad dwyieithog ar Sgwâr Daniel Owen yn yr Wyddgrug. Gwelwyd cydweithio braff rhwng holl eglwysi'r dref er mwyn cael cyfle i ganu carolau mewn awyrgylch ddiogel efo'n gilydd yng nghanol y farchnad. Diolch i Chloe Powell-Davies a fu'n cyfeilio ar y delyn ac i bawb a gyfrannodd eu lleisiau i ganu ac i rannu adnodau am y newyddion da sydd gennym yn yr un a aned ar y Nadolig yn Geidwad byd.

## Gwahoddiad i ymuno mewn dosbarth pregethu ar Zoom

Bydd Dosbarth Pregethu yn dechrau o'r newydd ar 18 Ionawr am 7.30 o'r gloch, dan arweiniad W. Bryn Williams, Pwllheli.

Byddwn yn defnyddio llyfr Peter Stevens (Cyn-brifathro Coleg Bedyddwyr Caerdydd), *Pregethu* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2018), fel llyfr gosod.

Croeso i bregethwyr presennol a darpar bregethwyr neu unigolion sy'n awyddus i ddechrau arwain oedfaon.

Cysylltwch â Delyth Oswy-Shaw ([Delyth.Oswy@ebcpcw.cymru](mailto:Delyth.Oswy@ebcpcw.cymru))

neu W. Bryn Williams ([bryn.williams@ebcpcw.cymru](mailto:bryn.williams@ebcpcw.cymru))

## Dechrau Canu, Dechrau Canmol Cystadleuaeth Llundun Emyn

Dyddiad Cau: 14 Ionawr

Cofiwch am ein cystadleuaeth i ysgrifennu emyn newydd ar gyfer nodi pen-blwydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed. Gofynnir i'r emyn fod yn gynnig Cymraeg gwreiddiol,

a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys. Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022. Anfonwch eich ceisiadau at: [emynigymru@rondomedia.co.uk](mailto:emynigymru@rondomedia.co.uk). Bydd cystadleuaeth newydd yn y gwanwyn i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau buddugol.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*  
Sul, 16 Ionawr, am 7:30yh (ailldarlliedir y Sul canlynol am 11:30yb)

Bydd Nia yn cwrdd â'r Parchedig John Gillibrand, un sy'n benderfynol o redeg ras gorfforol ac ysbrydol. Bydd hi hefyd yn treulio amser gyda chriw sy'n mentro i oerfel y tonnau er mwyn eu lles eu hunain ac i fod yn gefn i'w gilydd. Cawn fwynhau perfformiad hyfryd o'r emyn-dôn 'Dim Ond Iesu' gan Eirlys Myfanwy.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

Sul, 16 Ionawr, 7:30yb a 4:30 yp

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am berthnasau sydd wedi cyfannu tuag at ein hemynyddiaeth. Tair cenhedlaeth o'r un teulu sydd dan sylw heddiw, sef: J. T. Job, Dafydd Job a Heledd Job.

*Oedfa Radio Cymru*

Sul, 16 Ionawr, 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Ann Griffiths, Washington.

## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

### 10 Rhoi theori ar waith

#### Heddwch a disgyblaeth bersonol

Darllen: Galatiaid 5:16-26

Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth. (adn. 22)

Mewn oes o sbin, mae'r cyhoedd yn cael eu dadrithio gan bobl sy'n dweud un peth ond yn byw mewn ffordd wahanol. Does dim diben bod yn angel pen ffordd, yn sglein i gyd gerbron y byd, os wyt ti'n ddiawl pen pentan, yn dreisiol yn dy fywyd preifat. Paid ag ystumio delweddau o bobl amherffaith er mwyn iddyn nhw ymddangos yn berffaith, gan osod safonau i bobl ifanc fregus sy'n amhosibl eu cyrraedd. Paid â honni bod allyriadau dy geir cyn wynnid â'r lili os ydyn nhw mewn gwirionedd yn chwydu amhureddau budron allan ar bob taith. Mae'r cyfan ynglŷn â bod yn real, yr hyn ydych chi mewn gwirionedd, neu'n syml iawn, yn wir. Nid bod dim o hyn yn newydd – doedd Iesu byth yn araf i lambastio'r rhai a wyddai oedd yn ragrithwyr.

Os ydym ni'n awyddus i ddweud bod gwneud heddwch yn rhan o bwy ydym ni fel disgyblion i Grist, yna mae'n rhaid i'n bywydau ni dystio i hynny. Rhaid inni weithredu'r hyn a bregethwn, nid yn unig ar gyfer ein lles meddyliol ein hunain neu i osgoi cael ein cyhuddo o ragrith, ond fel y byddo ein tystiolaeth i Iesu, Tywysog Tangnefedd, yn ddigon gwir a chywir i gael ei chredu. Cyn y gallwn ni fod yn dangnefeddwyr i eraill gydag unrhyw gredinedd, mae angen inni edrych i mewn i'n bywydau ein hunain a gweld a oes yna lefydd lle nad oes heddwch, archwilio achos hynny ac yna weithredu er mwyn ateb y diffyg. Gadewch imi awgrymu rhai manau sy'n ychwanegu at bresenoldeb heddwch yn ein bywydau, neu'n tynnu oddi wrtho.


Yn gyntaf, fe geir ein perthynas â Duw. Mae'n rhaid bod gennym heddwch gyda Duw os ydym ni am fyw bywyd o heddwch mewn gwirionedd. Wrth gwrs, gall y rheiny sy'n cau Duw allan o'u bywydau, neu hyd yn oed yn gwadu ei fodolaeth, ddal i brofi mesur o heddwch, yn enwedig os yw bywyd yn mynd yn dda iddyn nhw. Yn wir, efallai eu bod yn gallu dweud bod eu bywydau'n

berffaith! Ddylem ni ddim fod yn ceisio tynnu oddi ar hynny o angenrheidrwydd, ond ychwanegu ato yn hytrach, oherwydd mae *teimlo* bod gennych heddwch a bod yn wir mewn heddwch yn bethau gwahanol. Waeth pa mor dda bynnag ydy bywyd, mae'n well pan fydd Duw yn cael ei adnabod a'i addoli. Rwy'n gobeithio y bydd llawer o'r rheiny sydd heb fod yn adnabod Duw yn dod o hyd i gariad cynhesol yn ei freichiau, fel y bu i'r mab afradlon ei wneud ym mreichiau ei dad (Luc 15:11-32), a'r adeg honno rwy'n gobeithio na fydd fy ymateb i'n debyg o gwbl i un y brawd hynaf.

Fodd bynnag, y Beibl sy'n ein harwain yn ein hymwneud, ac mae'r Rhufeiniaid 5:1 yn uniongyrchol iawn wrth gysylltu ein perthynas efo Duw â realiti heddwch yn ein bywydau: 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' Yn wrthrychol, daw heddwch gyda Duw trwy ffydd yn Iesu Grist. Byddwn yn gweld yn fuan sut y gall ein hawydd i fod yn dangnefeddwyr fynd â ni i mewn i'r amrywiol feysydd dilys o ofal am ein byd – o wleidyddiaeth i gyfrifoldeb amgylcheddol – ond ddylen ni ddim cilio'n ôl oddi wrth neges yr efengyl fod Iesu yn Arglwydd a Gwaredwr, a gwahodd pobl i gydnabod yr hawl sydd ganddo ar eu bywydau. Os yw ein ffydd yng Nghrist yn rhoi unrhyw fesur o heddwch inni, yna sut y gallwn ni gadw hynny rhag eraill?

Yn ail, hyd yn oed i'r rheiny ohonom sydd wedi gwneud penderfyniad i ddilyn Crist yn ygorffennol, mae yna waith ffurfio cymeriad sy'n parhau ynom er mwyn i'n bywydau wirioneddol adlewyrchu'r Arglwydd a wasanaethwn. Mae'r nodweddion y down ni ar eu traws yn Galatiaid 5:19-21 yn rhai i'w hosgoi, a dyna restr ddiffas ydy honno! Ond, canolbwyntiwch ar y cadarnhaol a'r naw nodwedd a restrir yn yr adnodau sy'n dilyn, Galatiaid 5:22-3.

Cariad sydd ar frig y rhestr, y rhodd fwyaf yn ôl yr apostol Paul yn 1 Corinthiaid 13:13, ac mae sôn am heddwch fel un o'r naw, ond byddai'n gamgymeriad i geisio gwahanu'r nodweddion hyn. Ceisia rhai esbonwyr eu casglu yn driodd, ond, a bod yn onest, dydy'r strwythur hwnnw ddim yn gweithio. Mae'n well gen i weld y rhain fel ymddygiad neu agweddau sy'n sefyll neu'n disgyrn



gyda'i gilydd fel uned. Bydd cymeriad sy'n cael ei fowldio i fod yn debyg i un Crist, er byth yn berffaith, yn datguddio, gobeithio, pob un o'r nodweddion hyn mewn mesur helaeth. Os na fyddai, yna byddai yna waith i'w wneud. Felly, heb rygnu ymlaen ymhellach, bydd presenoldeb cariad yn ein calonnau yn cael ei amlygu gan synnwyr o lawenydd, awryglch o heddwch, addfwynder gydag eraill ac felly ymlaen. Yn yr un modd, fe fydd heddwch yn amlwg am ein bod yn edrych ar eraill gyda chariad; am ein bod yn gwrthod gadael i'n hamgylchiadau presennol ddwyn ein llawenydd oddi arnom; am ein bod yn amyneddgar gyda phobl, yn garedig, yn hael, yn addfwyn ac yn dangos hunanreolaeth. O droi hyn ar ei ben, os nad oes gennym hunanreolaeth neu fod ein cariad at bobl yn brin, yna fyddwn ni ddim mewn heddwch, ac felly ymlaen.

Yn aml, fe fyddwn yn edrych y tu allan i ni ein hunain am resymau i esbonio ein diffyg heddwch. Mae dylanwadau allanol yn effeithio'n fawr ar hyn – a dyna pam y byddwn yn mynd i'r afael â rhai o'r rhain yn y penodau nesaf – ond mae'n rhaid inni edrych yn gyntaf ar ein bywydau, ein calonnau a'n meddyliau ein hunain. Dyna lle mae gwreiddyn ein hunaniaeth, lle rydym yn coleddu popeth sy'n dda ac unrhyw beth sydd heb fod felly. Yn ein calonnau a'n meddyliau mae angen i Grist lywodraethu, gydag Ysbryd Duw yn llywio'r ffordd y byddwn yn meddwl ac yn llefaru a sut y byddwn yn ymateb ac yn adweithio.

Dyma pam mae Paul yn dweud, 'A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu' (Philipiad 4:7).



## Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch (Robin Gwyndaf)

Mae'r gyfrol hon, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn ffrwyth ymchwil manwl, chwilota eang a dethol gofalus. Nid tasg hawdd yw ceisio cyflwyno argraffiadau personol teilwng o gynnwys manwl a chyfoethog, a chymaint o wybodaeth, a gwneud hyn yn weddol gryno. Mae'n gyfrol hardd, ddeniadol o ran golwg, â holl agweddau'r argraffu o safon uchel iawn. Mae hyn yn hollol gyson â'r amlinellid o waith, cyfraniadau a chyraeddiadau'r unigolion a ddarlunnir, yn bennaf, gofal am iechyd meddwl, a'r prif wrthrych, Dr David Enoch, y seiciatrydd byd-enwog.


Ceir cyfeiriadau at y Gwasanaeth Iechyd a gwaith diflino'r meddygon, nyrsys, parafeddygon ac ati. Yn ogystal, crybwyllir y cartrefi gofal a'r elusennau niferus, heb anghofio eglwys y Bedyddwyr, y Tabernacl, Caerdydd, a'r modd y mae'n rhoi Cristnogaeth ar waith – ie, 'pa les yw i ddyn ddweud fod ganddo ffydd, ac yntau heb weithredoedd' (Iago 2:14) – eglwys lle mae awdur y gyfrol, Robin Gwyndaf, yn aelod ynddi.

Dwy thema sydd i'r gyfrol: 'gofal am iechyd meddwl' a 'diolchamdestundiolch'. Disgrifir helyntion a gorthrymderau'r ddynoliaeth ac fe ddaw'r profiadau'n fyw wrth ddarllen, canys profiadau byw, real iawn oeddynt, ac ydynt, i'r awdur ei hun ac i eraill. Gwelir y neges ganolog yn y geiriau hyn:

Ar fin y ffordd y mynnwn fyw,  
Yn rhannu helynt dynol ryw;  
Ar fin y ffordd y carwn fod,  
Yn ffrind i bawb sy'n mynd a dod.  
(o 'Gân y Crynwyr')

Noda'r awdur dri rheswm dros gyhoeddi'r gyfrol.

(1) Rheswm personol – ei ddiddordeb mewn meddygaeth, seicoleg, seiciatreg a seiciatryddiaeth; â ymlaen i sôn am hawliau dynol ac ansawdd bywyd pawb, o'r ieuengaf



i'r hynaf. Ceir elfen gref o genhadaeth yn ei eiriau, ynghyd â'i ddyhead dwfn am weld arweinwyr gwledydd y byd yn ymateb yn bositif i anghenion y ddynoliaeth. Drwy'r gyfrol ceir hanesion a dyfyniadau ysgrythurol, ynghyd â beirniadaeth lem o ddiffyg ymateb ac ymateb annigonol gwleidyddion.

(2) Mae'r ail reswm yn bur amlwg o ddarllen erthyglau a llyfrau Dr David Enoch a'r portread a geir ohono gan wahanol unigolion y bu â chysylltiad ag ef, yn arbennig felly, gan ei frawd yng nghyfraith. O'r rhain daw'r neges ddwys pa mor rhyfeddol bwysig yw ei faes arbenigol, ac mor fawr yw'r angen am feddygon o'i fath.

Gweddus iawn yw cynnwys enwau a lluniau sylfaenydd rhai elusennau, e.e. Wynford Ellis Owen a'r Stafell Fyw yng Nghaerdydd, a'i ymroddiad nodedig. Yna, Rhian Evans, Caerfyrddin, a'i gwaith wrth sefydlu Papur Llafar y Deillion, ac wedyn Llyfrau Llafar Cymru. Teimlaf reidrwydd i gynnwys diolch Robin Gwyndaf i Rhian a'i chyfraniad

rhyfeddol, ac meddai amdani, 'Cannwyll yn olau yn y tywyllwch ydyw':

I'r fwynaf un eiddunaf – ogoniant  
Y gwanwyn tyneraf;  
Hedd yr awel dawelaf,  
A gwynfyd yr hyfryd haf.

(3) Y trydydd rheswm am gyhoeddi'r gyfrol yw portread Malcolm T Rees, brawd yng nghyfraith Dr David Enoch, priod ei chwaer Iolande (y diweddar Malcolm ac Iolande erbyn hyn). Rhyfeddol yw manylder y portread hwn: un ar hugain o benodau yn olrhain hanes y meddyg o Ben-y-groes, o ddyddiau ei blentyndod, ei yrfa ddisglair a llu o luniau'n portreadu gwahanol gyfnodau ei fywyd llawn. Ychwanegir un nodyn pwysig arall. Sylweddolodd David yn gynnar yn ei yrfa, 'y cysylltiad annatod, nid yn unig rhwng y corff a'r meddwl, ond hefyd rhwng y corff, y meddwl, yr ysbryd a'r enaid'.

Gydol ei fywyd fel seiciatrydd blaenllaw, rhoddai bwyslais ar ffydd a chariad ac y mae sawl cyfrol o'i eiddo yn tystio i hynny, yn eu plith *I Want a Christian Psychiatrist: Finding a Path back to Mental and Spiritual Well-being* a *Healing the Hurt Mind: Christian Faith and Clinical Psychiatry*. Treiddiodd ei argyhoeddiad dwfn i holl agweddau ei waith.

Diolch o galon i'r Dr Robin Gwyndaf am gymwynas fawr. Rhagflas yn unig sydd yma, ond gallaf eich sicrhau y cewch agoriad llygad fel minnau, o ddarllen yr hanes am gyflwr truenus unigolion o bob oed, a chyfraniad amhrisiadwy'r Gwasanaeth Iechyd ac eraill. Cefais fy sbreiddio'n llwyr. Hoffwn nodi un peth arall. Gwn i'r Dr David Enoch dderbyn canmoliaeth, cydnabyddiaeth ac anrhydeddau ar hyd ei fywyd. Hyfrydwch yw cael cyfrol fel hon sy'n dod â'r cyfan at ei gilydd – a hyn yn ystod ei oes.

Diolch am y diolch a'r cyfle i ddiolch, a phob hwyl a bendith wrth ddarllen.

Morlais Dyfnallt Owen

## Cerdyn Nadolig gan Gymorth Cristnogol

Dosbarthwyd ein cerdyn Nadolig 3 metr o uchder i Boris Johnson, wedi'i lofnodi gan dros 50,000 o bobl ledled y Deyrnas Unedig, ar 15 Rhagfyr 2021.

Aethpwyd â'r cerdyn i sgwâr y Senedd gan 12 pwddin Nadolig maint dynol a chôr yn canu carolau hinsawdd!

Ar y cerdyn roedd ein galwad ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel llywydd COP hyd at 2022, arwain y byd i wneud y canlynol:

1. cau'r bwlch i 1.5 °C
2. sicrhau ymrwymadau cyllid hinsawdd mwy uchelgeisiol
3. talu am golled a difrod anadferadwy
4. dirwyn yr oes tanwydd ffosil i ben.



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Goleuni, disgleirdeb a gogoniant

Darlenn Salm 36:1-12 – Goleuni

### Gwedd

Arglwydd, plygwn ger dy fron gan gydnabod dy fawredd a'th gyfiawnder. Mewn byd o anghyfiawnder, o gynllwynion, o ddrwgioni a thwyll, diolchwn dy fod yn gwbl gyfiawn ac yn ddi-dderbyn-wyneb yn dy gyfiawnder. Diolchwn fod Bywyd ynot dy hun, a'th fod yn ffynnon ddihsbydd o fywyd i'r byd; yr wyt yn gysgod, yn lloches ac yn oleuni i ni. Diolch bod y rhinweddau yma, yn dy Fab Iesu Grist, wedi troedio llwybrau ein daear ni. Arglwydd, caniatâ i ninnau heddiw, drwy dy Ysbryd Glân, weld y goleuni hwnnw sydd, yn ei anterth a'i ddisgleirdeb diatal, yn dangos mai pŵl yw pob cannwyll arall a welir yn y byd. Arglwydd, yn dy oleuni di y gwelwn oleuni. Arglwydd, goleua ni. Amen.

**Emyn 773** 'Ynghanol nos, oleuni mwyn y nef'

Darlenn Eiseia 62:1-5 – Disgleirdeb

Gallwn ddychmygu pobl yr Arglwydd yn digalonni wrth iddynt wynebu ymffrost Babilon. Gallent gofio bod y proffwydi wedi eu rhybuddio bod canlyniadau i'w hanffyddlondeb i'r Arglwydd, eu camdriniaeth o'r tlawd a'r anghenus. Bellach eisteddant ger afonydd Babilon, a chaneuon eu mamwlad yn adlais o obeithion oes wahanol. Ymddangosai eu mamwlad mor bell, a'u ffydd yn yr Arglwydd mor amherthnasol i'w sefyllfa newydd. Hiraethai rhai am orffennol lle roedd y patrymau a'r crefyddau'n gyfarwydd. Derbynai eraill eu bod mewn gwlad estron ac mai yno yr oedd eu dyfodol mwyach. Cefnodd eraill (i raddau gwahanol) ar eu hen grefydd. Efallai iddynt gadw mewn un genhedlaeth at allanolion eu traddodiad, ond cefnu'n gynyddol a wnâi'r cenedlaethau nesaf. Geiriau dieithr, a berthynai i iaith ddieithr, gwlad oedd yn gynyddol estron oedd eu hiaith a'u ffydd. Efallai fod y caneuon yn parhau i gael eu canu am ychydig, am ryw reswm neu'i gilydd, ond yn gynyddol seiniau diystyr oedd y geiriau wedi iddynt gael eu gwahanu o'u cyd-destun.

Diau ein bod ninnau hefyd, hyd yn oed y mwyaf gobeithiol yn ein plith, yn gwangalonni ar brydiau wrth edrych ar yr 'alltudiaeth' yr ydym ninnau ynddi bellach. Cefnodd llawer yng Nghymru ar ffydd a

gwerthoedd eu rhagflaenwyr; adleisiau mawl ein ddoe yw emynau mawr ein ffydd. Fel oratoriau Bach, a gyfansoddwyd fel mynegiant twymgalon, urddasol a dyrchafol o'r ffydd, ac a fwriadwyd i'w canu fel gweithiau yn yr eglwys, ychwanegiad i repertoire corau i'w perfformio yw ein hemynau bellach. Tynnwch y saint o'r mawl, a dim ond y 'sain' sydd ar ôl. Er mor dlws yw'r seiniau, ar y cyfan geiriau diystyr ydynt. Mwmian seiniau dieithr ac estron o obaith a sicrwydd ffydd sydd bellach ar goll.

Ond, meddai Duw drwy Eiseia wrth ei bobl: nid mewn caethglud y bwriadwyd i'w bobl dreulio'u hoes. Y mae adferiad bob amser yn bosibl. Roedd modd dychwelyd. Disgrifia Eiseia ddyfodol gobeithiol trwy adnabyddiaeth o'r Arglwydd a thrwy ei fafr.

Ac nid mewn anobaith ein hofnau nac yng nghaethglud byw mewn byd estron y'n gadewir ninnau fel cynulleidfaoedd o bobl yr Arglwydd Iesu Grist. Yr ydym, trwy ras, yn bobl freintiedig i'r Arglwydd.

Trwy weithredoedd achubol Duw rhoedd enw newydd ar ei bobl. Yn Iesu Grist gallwn adnabod ein hunain fel y 'goron odidog', y 'dorch frenhinol'. Yng Nghrist, ac yn ei law, cawn ein hadfer fel ei bobl ac fel unigolion. Ffrwytha'r tir anghyffannedd trwy ei ymyrraeth, ymhyfryda'r Arglwydd ynom, down yn destun ymffrost y Priodfab dwyfol ei hun.

Am hynny, na fodlonwn ar ryw "rith o grefydd heb ei grym". Ac fel Eiseia, boed i ni barhau i ddweud: 'Er mwyn Seion, ni thawaf hyd nes ...'

Darlenniad Ioan 2:1-12 – Gogoniant

Gallwn ddychmygu siom y priodfab yn yr hanes. Gwyddai, er y gallai cyfnod y 'briodas' ymestyn dros nifer o ddyddiau, mai ef, y priodfab, oedd yn gyfrifol am sicrhau bod digonedd ar gyfer pawb. Nid anodd yw dychmygu ei bryder wrth weld bod ei ddarpariaeth i'r wledd ar fin pallu.

Ond nid yn y briodas ddaearol yng Nghana Galilea y mae diddordeb Ioan mewn gwirionedd. Er nad oedd ei 'awr wedi dod eto', drwy ddarpariaeth hael Iesu a thrwy'r weithred ryfeddol o droi'r dŵr yn win, achubwyd y sefyllfa. Er hyn, mae Ioan am i ni ddeall cymaint â hyn: 'amlygodd felly

ei ogoniant, a chredodd ei ddisgyblion ynddo'.

Yn wir, 'arwydd' oedd y wyrth, arwydd sy'n ein cyfeirio ymhellach, y tu hwnt i'r digwyddiad neu'r arwydd ei hun, i ganfod gwirionedd llawer mwy. Tybed nad arwyddai'r wyrth fod y 'Priodfab', yr hwn y soniodd Eiseia amdano, yr hwn fyddai'n ymhyfrydu yn ei briodferch, bellach wedi dod i blith ei bobl?

Roedd ei ddyfodiad ynddo'i hun yn gondemniad ac yn obaith. Onid oedd y wledd yn anghyflawn heb Iesu a 'gwin' darpariaeth y gyfundrefn grefyddol ar fin dod i ben yn llwyr? Doedd dim hyd yn oed gwin sâl lonni'r gwesteion argaelmwyach. A gwag hefyd oedd y cawgiau ar gyfer 'defod glanhad' y bobl. Yn nyfodiad Iesu dangoswyd gwagedd y gostrel a phrinder yr hyn y medrai 'crefydd' yr allanolion ei gynnig.

Tybed nad oes yna lawer iawn ohonom fyddai'n dweud heddiw: 'Arglwydd, mae'r gwin wedi pallu, mae costrelau ein defodau'n wag, a bellach, does gennym ni ddim mo'r adnoddau i gwrdd ag angen y rhai sy'n ceisio llawenydd gennym?'

Man cychwyn pob adnewyddiad yw'r ymwybyddiaeth fod y cyfan yn hysb heb ei ymyrraeth Ef.

Roedd dyfodiad Iesu i'r wledd hefyd yn obaith. Wedi'r cyfan, roedd darparwr 'y gwin da' a'r gwin gwell wedi cyrraedd. Iesu, y Priodfab ei hun, yw'r un sy'n estyn gwahoddiad i flasur 'gwin gorau' pan ydym wedi dod i ben ein tennyn ac wedi darganfod bod y llestri oedd gennym yn wag. Ac y mae Ef, yr hwn yw Bywyd a goleuni dihsbydd, yn darparu'n helaeth ac yn llawn ar ein cyfer i dragwyddoldeb. (Gweler hefyd Ioan 3:28-30)

### Gwedd

Arglwydd Iesu Grist, plygwn ger dy fron gan gyffesu bod gwin bywyd ein heglwys wedi troi'n sur ac yn chwerw ei flas i lawer. Cyffeswn fod ein defodau crefyddol yn wag. Arglwydd Iesu, ein Priod annwyl, rydym am i ti ddychwelyd i'n plith gan lenwi'n bywydau â gwin da, y gorau sydd. Arglwydd, dangos i ni dy ogoniant. Dangos trwm ni arwyddion o'th ogoniant fel y bydd i eraill ganfod dy oleuni di. Amen.

**Emyn 355-356** 'O na allwn garu'r Iesu'

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)